

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Ffairfach

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Ffairfach yn darparu amgylchedd hapus a gweithgar lle mae disgyblion yn dangos parch ac ymddygiad o'r safon uchaf. Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol lle mae pob disgybl yn cael eu parchu a'u datblygu fel unigolion cyflawn a chyfrifol. Mae'r staff yn gofalu am iechyd a lles y disgyblion yn hynod lwyddiannus. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion drafod eu teimladau ac i gael cymorth ynglŷn â'u dysgu a'u lles emosiynol, pe bai angen. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gryfder.

Mae'r staff yn darparu cwricwlwm cyfoethog sy'n cynnwys llais y disgyblion yn rheolaidd. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau cyffrous a diddorol i ddisgyblion, sy'n eu datblygu'n ddysgwyr annibynnol o oedran ifanc yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio'r dosbarthiadau a'r ardal ehangach i ysgogi dysgu'r disgyblion, ac i gefnogi eu haddysg yn ystod sesiynau dysgu a chyfnodau egwyl yn hynod effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau yn gadarn yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol naws Gymreig amlwg ac mae llawer o ddisgyblion yn cyfathrebu yn Gymraeg yn ddigymell yn rheolaidd. Caiff y disgyblion brofiadau sy'n eu datblygu i fod yn ddinasyddion balch a gwybodus am eu hardal a'u hetifeddiaeth. Maent yn rhan annatod o'r pentref a'r gymuned ehangach.

Mae'r pennaeth, y pennaeth cynorthwyol a'r holl staff yn creu tîm effeithiol sy'n gweithio er budd y disgyblion. Maent yn cyfarfod yn aml gyda staff ysgolion eraill y ffederasiwn er mwyn rhannu arfer dda, dysgu o'i gilydd a manteisio i'r eithaf ar eu hadnoddau. Mae arweinwyr yn adnabod cryfderau'r ysgol ac yn ymwybodol o beth sydd angen ei wella, er nad yw'r blaenoriaethau bob amser yn ddigon clir nac yn hawdd eu mesur yn effeithlon. Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn ei hadnabod yn dda. Mae'r aelodau'n wybodus iawn am nifer o agweddau pwysig yr ysgol, gan gynnwys y cyllid. O ganlyniad, maent yn cynnig cymorth a her berthnasol gan sicrhau gwerth da am arian.

# Argymhellion

A1 Sicrhau bod blaenoriaethau gwella'r ysgol yn glir ac yn fesuradwy

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Ffairfach |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 95 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 80 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 6 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 17.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 15.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 28.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2021 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 12/06/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/08/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.